Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

**Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i:**
**Cynllun gweithredu LHDTC+**
Yn cau 22 Hydref 2021
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cyflwyniad i Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn lais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae chwe phrif thema i'r Cynllun Gweithredu: Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Diogelwch; Cartrefi a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle. Hoffem gael eich barn ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob thema. Efallai yr hoffech roi sylwadau ar un o'r meysydd hyn neu bob un ohonynt.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol fel sail i'ch ymateb. Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau neu wybodaeth ychwanegol os dymunwch.

### Cwestiwn 1: A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTC+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

Mae gan y Cynllun Gweithredu gyfle i gyflawni rhai canlyniadau cydraddoldeb gwell i bobl LHDTC+ ac o bosib i osod y sylfeini ar gyfer gwelliannau pellach. Mae newid system a phroses yn debygol o fod yn haws na newid teimladau a meddyliau ac fe ddylai arwain at gyflwyno gwasanaeth yn well a chynnydd o ran cyfle cyfartal. Fel y dywedodd rhywun yn ddiweddar, 'roedd hyn yn anghyfreithlon yn ystod fy oes i, ac fe wnaeth adran 28 ac ymateb y cyfryngau i HIV / AIDS niwed mawr i genhedlaeth arall'.

### Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

Rydym yn cytuno gyda'r nodau trosfwaol. Fodd bynnag, mae cwestiynau ynghylch yr hyfforddiant a'r adnoddau posibl a fydd eu hangen i'w cyflawni a'u gweithredu'n llwyddiannus.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?**

**Sicrhau Diogelwch Pobl LHDTC+:**

- Cam Gweithredu 14 yw adolygu pam nad oes digon o droseddau casineb LHDTC+ yn cael eu cofnodi gyda'r nod o wella'r lefel adrodd. Rydym yn cytuno gyda'r cam hwn ond yn credu bod angen ei ddatblygu ymhellach, fel nad y lefel adrodd yw'r pwynt terfynol, ond yn hytrach, yn dilyn adrodd, bod cefnogaeth a threfniadau ymgysylltu gwell i ddioddefwyr. Dim ond ar yr adeg honno y byddant yn teimlo'n ddiogel. Os oes cynnydd o ran adrodd ond does dim yn digwydd neu'n newid yn dilyn hyn, y tebygolrwydd yw y bydd pobl yn rhoi'r gorau i adrodd am ddigwyddiadau yn y dyfodol.
- Mae cyfle posibl a gollwyd i gysylltu'r adrodd neu elfennau eraill gyda'r Ddyletswydd Trais Difrifol sy'n cael ei chyflwyno drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd.
- Mae Cam Gweithredu 15 yn cyfeirio at weithio gyda chwmnïau technolegol a phlatfformau cyfryngol i fynd i'r afael â throseddau casineb a chamwybodaeth. Rydym yn cytuno gyda'r cam hwn, ond rydym yn credu drwy waredu, gan geisio, lle bo'n bosibl, i weithio gyda Llywodraeth San Steffan ar y mater, yn unol â'r argymhellion gan y panel annibynnol, efallai y bydd y lefelau o ran dylanwad yn lleihau.

**Iechyd**

- Cam Gweithredu 35: Rydym yn cytuno gyda'r cam hwn o ran targedu'r meysydd sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur, ond yn pryderu, os na chaiff ei dderbyn gan y gymuned ehangach, y bydd hyn i ddarparu gwasanaethau yn ystod argyfwng yn hytrach nag atal pethau rhag gwaethygu.

**Gweithle:**

- Mae'r camau gweithredu yn cefnogi hyfforddiant, mesurau diogelu cyflogaeth ar gyfer staff traws a phwysigrwydd casglu data, sydd i gyd yn bwysig. Gellid cael cam gweithredu yn ymwneud â thorri'r nenfwd gwydr i ferched LHDTC+, sy'n cael eu heffeithio gan y sefyllfa economaidd-gymdeithasol i ferched a'r cyflogau is, gan arwain at risg uwch o gamfanteisio.

**Cyffredinol:**

- Diffyg ffocws ar rannu data a allai gynorthwyo â chynllunio a chyflawni ymatebion, ond ymddengys bod llawer o waith casglu data. O ran casglu data, sut fydd cysondeb rhwng asiantaethau yn cael ei sicrhau? A fydd ffurflen gydraddoldeb benodol? Os felly, a fydd y ffurflen yn seiliedig ar un sylfaenol, fel yr un sy'n cael ei defnyddio yn y Cyfrifiad, neu un fwy manwl fel sy'n cael ei defnyddio gan Stonewall Cymru?
- Mae diffyg ffocws ar gyfleoedd rhwng cenedlaethau. Fel a soniwyd yng nghwestiwn 1, fe allai hyn fod yn fwy anodd i rai cenedlaethau ei dderbyn a'i

broses, ond drwy gydweithio ar draws cenedlaethau gellid lleihau rhwystrau a gwella cydlyniant cymunedol a dealltwriaeth.

- Nid oes unrhyw sôn am yr effaith ar bobl LHDTC+ o ran unigrwydd ac arwahanrwydd, sy'n gallu digwydd pan mae pobl yn dod allan ond hefyd wrth iddynt heneiddio pan nad yw ochr gymdeithasol LHDTC+ yn berthnasol mwyach.
- Yr angen i normaleiddio pobl a pherthnasau LHDTC+ drwy eu presenoldeb mewn hysbysebion neu ymgyrchoedd – er enghraifft, gyda dau berson o'r un rhyw yn gallu cerdded i lawr y stryd law yn llaw. Mae dal llaw partner weithiau'n dod â risg o gam-drin, trosedd casineb, trais ac yn aml, i ferched yn arbennig, risg o sylw rhywiol digroeso a chasineb.
- Nid oes cam gweithredu neu sylw penodol o ran aflonyddu ar y stryd a allai gysylltu â'r awgrym uchod i normaleiddio perthnasau a phobl yn y cyfryngau.
- Mae tystiolaeth gynnar bod rhai grwpiau casineb at bobl Traws yn gysylltiedig ag eithafiaeth. Os edrychwch ar yr Unol Daleithiau, mae nifer y bobl Traws sy'n cael eu lladd yn cynyddu. Nid ydym eisiau i'r duedd hon ddod i Gymru, felly efallai bydd cyfleoedd i ddysgu a chymryd camau ataliol.
- Mae cyfle a gollwyd o fewn y camau gweithredu ar gyfer mentoriaid o'r cymunedau LHDTC+ i gefnogi'r rhai hynny sy'n iau neu sy'n ymdopi â'r broses o ddod allan (sy'n gallu digwydd ar unrhyw oed). Gall hyn hefyd helpu gyda chydlyniant ar draws y gymuned LHDTC+, yn enwedig ar draws cenedlaethau sydd â phrofiadau gwahanol.

Dyma'r sylwadau o safbwynt diogelwch cymunedol, gweler ymateb CLlLC i weld sylwadau o safbwynt Awdurdod Lleol.

**Cwestiwn 4: Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?**

- Efallai bod gormod i'w cyflawni ar unwaith, a allai arwain at 'loteri cod post' yn dibynnu ar ba rai sy'n cael eu blaenoriaethu'n gyntaf mewn ardaloedd.
- Fe allai'r ddadl barhaus o ran rhyw a rhywedd arwain at fwrw'r cynllun, neu rannau ohono, oddi ar y cledrau. Mae yna eisoes dystiolaeth anecdotaidd bod merched anneuaidd neu ferched sy'n edrych yn wrywaidd yn cael eu cwestiynu i weld a ydynt yn defnyddio'r toiledau cywir, er mae'r rhain yw'r cyfleusterau iddynt eu defnyddio erioed.
- Nid yw'n ymddangos bod y camau gweithredu yn y cynllun yn rhai 'SMART', nid oes amserlenni yn gysylltiedig â nhw, ac nid oes arwydd clir o bwy fydd yn cyflawni neu'n gyfrifol am eu goruchwylio'n lleol.
- Fe allai'r effaith a'r ffocws ar ddeddfwriaeth a phartneriaid datganoledig a heb eu datganoli arwain at rwystrau. Yn ogystal, fe allai rhannu negeseuon fod yn anodd os oes neges wahanol yn dod o San Steffan ac yn cael ei chyhoeddi gan y cyfryngau cenedlaethol gan achosi dryswch ychwanegol.

Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

**Cwestiwn 5: Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?**

Anodd iawn yw nodi pa adnoddau fydd eu hangen heb amserlenni a chamau gweithredu SMART. Rydym yn credu y bydd angen am adnoddau ond nid ydym yn gallu nodi pa rai a phryd heb gael dealltwriaeth gliriach o drefniadau cyflwyno'r camau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer cyflawni.

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTC+ â nodweddion gwarchodedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabledd, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?**

Mae'r cynllun gweithredu LHDTC+ yn ceisio cynnwys croestoriadedd, ond mae'r diffyg cyfeiriad at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac unrhyw sôn am LHDTC+ a'r cynllun gweithredu hwn yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn awgrymu bod mwy i'w wneud a'i ddatblygu yn y maes hwn i wneud cysylltiadau priodol ac i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chroestoriadedd. Mae hefyd risg i briodoleddau eraill heb gynllun penodol gael eu hystyried fel blaenoriaeth is ac felly fe allai'r prif achos am droseddau casineb, er enghraifft, gael ei gofnodi'n anghywir.

**Cwestiwn 7: Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Ar yr amod bod holl elfennau'r cynllun gweithredu yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, nid oes gennym unrhyw sylwadau o dan y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dim sylwadau.

**Cwestiwn 9: Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTC+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTC+ yn y Cynllun.**

**Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.**

Fel y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r angen i gydnabod nad yw pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig yn un grŵp ac y dylid cyfeirio atynt yn ôl eu diwylliannau unigol, nid yw aelodau'r gymuned LHDTC+ i gyd yr un fath ac nid ydynt yn nodi eu bod yr un fath. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb, fe ddylai'r cynllun LHDTC+ ddilyn yr un canllawiau a chydnabod nad yw pob person LHDTC+ yr un fath ac nad ydynt wedi cael yr un profiad. Heb wneud hyn, mae perygl y gallai'r cymunedau unigol sy'n creu'r acronym LHDTC+ gael eu hanghofio ac felly ni fydd nodau'r cynllun yn cael eu cyflawni.

**Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:**

Mae cynnig i Banel Arbenigwyr Annibynnol LHDTC+ ddod yn grŵp parhaol a fydd yn goruchwylio darpariaeth y cynllun gweithredu. Sut y bydd y grŵp hwn yn cysylltu ac yn gweithio gyda'r grŵp goruchwylio cyfatebol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol? Sut y byddant yn gwneud mwy na'r hyn fydd yn ofynnol gan gyrff Sector Cyhoeddus sydd â dyletswyddau mewn perthynas â deddfwriaeth gydraddoldeb ac sydd â strwythurau craffu ac adrodd mewn lle?

**Enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad (os yn berthnasol):** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
**E-bost:** cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk